Ombwdsmon Ombudsman
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES

**Ymateb gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**i Gynllun Hawliau Plant Drafft 2021 Llywodraeth Cymru**

Rwy'n falch o gael y cyfle i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Gynllun Hawliau Plant Drafft 2021 Llywodraeth Cymru.

**Ein rôl**

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), rwy'n ymchwilio i gwynion a wnaed gan aelodau o'r cyhoedd sy'n credu eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder drwy gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan gorff o fewn fy awdurdodaeth, sydd yn ei hanfod yn cynnwys yr holl sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chynghorau cymuned)
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys Meddygon Teulu a deintyddion)
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai)
- Llywodraeth Cymru, ynghyd â'i chyrff noddedig.

Rwyf hefyd yn gallu ystyried cwynion am ofal cymdeithasol a drefnwyd yn breifat neu ofal cymdeithasol a ariennir, yn ogystal â gwasanaethau gofal lliniarol ac, o dan amgylchiadau penodol, agweddau ar ofal iechyd a ariennir yn breifat.

Bydd y pwerau ymchwilio ar ei liwt ei hun a roddwyd imi o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (Deddf OGCC 2019) yn fy nghaniatáu i ymchwilio pan fydd tystiolaeth yn awgrymu y gall fod methiannau systematig, hyd yn oed os nad yw defnyddwyr gwasanaeth eu hunain yn codi cwynion. Mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu'r Awdurdod Safonau Cwynion (CSA) i ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus trwy gefnogi ymdrin â chwynion yn effeithiol gan ddefnyddio gweithdrefnau enghreifftiol, hyfforddiant a chasglu a chyhoeddi data.

**Sylwadau Cyffredinol**

O fewn cwmpas y ddyletswydd a roddir ar Weinidogion, mae trefniadau'r Cynllun Hawliau Plant Drafft (y Cynllun) yn ymddangos yn gynhwysfawr. Mae dilyn y strwythur a nodir yn fframwaith 'Y Ffordd Gywir' y Comisiynydd Plant yn ymddangos yn ffordd synhwyrol a gwybodus o fwrw ymlaen Mae'r Cynllun, oherwydd ei natur, wedi'i lywio yn benodol gan gydymffurfiad, gyda chanlyniadau sy'n disgrifio newidiadau proses sy'n dangos cydweddiad â'r Confensiwn. Fodd bynnag, mae'r

cyd-destun strategol a systemig ar goll. Nid yw'n glir sut y bydd y Cynllun yn cyfrannu at agenda strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc o ran tlodi plant, amddiffyn plant a gofal plant, ac felly'n arwain at well gwasanaethau a chanlyniadau lles i blant a phobl ifanc. Rwy'n credu y byddai'r Cynllun Hawliau Plant terfynol yn cael mwy o effaith pe bai cysylltiadau â'r canlyniadau ehangach hyn sy'n effeithio ar fywydau plant yn cael eu hegluro.

Rwy'n canmol Llywodraeth Cymru am gyflwyno proses gwynion sy'n addas i blant, yn enwedig os yw plant a phobl ifanc yn rhan o'i datblygiad. Mae'r cam rhagweithiol hwn yn unol ag Egwyddorion Ymdrin â Chwynion yr Awdurdod Safonau Cwynion a bydd yn darparu arfer defnyddiol y gallai gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ei efelychu mewn mannau eraill. Fodd bynnag, ymddengys nad yw cwmpas yr ymyrraeth hon ond yn ymwneud â chwynion a wneir ynghylch cymhwyso'r ddyletswydd gan Weinidogion a'r Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant ac nid â gwaith ehangach y llywodraeth. Mae hyn yn gyfle sydd wedi'i golli. Byddem yn croesawu'r cyfle i weithio â swyddogion Llywodraeth Cymru ynglŷn â hyn.

**Themâu o'm Gwaith achos**

Mae gan fy Nghoflyfr a gyhoeddir yn rheolaidd, ynghyd â'm Coflyfr Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Blynyddol, adroddiadau lles y cyhoedd ac adroddiadau thematig dystiolaeth a allai fod o ddefnydd yn eich strategaeth tystiolaeth hawliau plant arfaethedig a'ch Asesiadau Effaith Hawliau Plant. Mae'r gwaith achos hwn yn cynnwys enghreifftiau sy'n dangos yr effaith gadarnhaol y gall dull hawliau plant ei chael ar fywydau go iawn. I ddangos hyn, hoffwn dynnu sylw at enghreifftiau lle mae cyrff cyhoeddus wedi rhoi sylw dyledus i hawliau plant, a lle nad ydynt wedi rhoi sylw dyledus i hawliau plant.

**Dinas a Sir Abertawe: Cyfeirnod 201704517 [Tai - Ymddygiad Gwrthgymdeithasol]**

Cwynodd Miss A nad oedd y Cyngor wedi cynnal ymchwiliad digonol i'w chwynion yn ymwneud â phlant ifanc yn chwarae pêl-droed ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor wrth ymyl ei chartref.

Cydnabu'r Ombwdsmon fod Miss A wedi codi materion yn ymwneud ag Erthygl 8 mewn cysylltiad â'i mwynhad o'i chartref, a hefyd materion yn ymwneud â'r Ddeddf Gydraddoldeb. Dywedodd y Cyngor wrth yr Ombwdsmon ei fod wedi ymchwilio i bryderon Miss A ac wedi ystyried ei hawliau Erthygl 8. Gan fod hon yn hawl gymwysedig, roedd hefyd wedi ystyried hawliau'r plant, a'r angen i'w hamgylchedd chwarae fod yn ddiogel. Roedd yr ardal o amgylch cartref Miss A a thir y Cyngor yn amgylchedd mor ddiogel. Ychwanegodd y Cyngor fod egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) wedi'u hymgorffori yn ei bolisïau a'i arferion ac felly, wrth gynnal yr ymarfer cydbwyso a gynigir gan Erthygl 8, roedd wedi ffafrio hawliau ac anghenion y gymuned gyfan - yn enwedig y plant a'u hawl i chwarae gyda ffrindiau mewn amgylchedd diogel.

Nododd yr Ombwdsmon fod y cyngor wedi dangos ei fod wedi gofyn y cwestiynau perthnasol iddo'i hun wrth ystyried hawliau Erthygl 8 Miss A ac wedi eu pwyso yn erbyn hawliau plant (fel y nodir yn yr UNCRC). Roedd ganddo hawl i ddod i'r

casgliad hwnnw ac felly roedd ganddo hawl i ymyrryd â hawliau un person i amddiffyn hawliau a rhyddid pobl eraill. Darparwyd ar gyfer hyn gan Erthygl 8.

**Cyngor Sir Ddinbych: Cyfeirnod 201701203 [Addysg AAA]**

Cwynodd Mrs X bod y Cyngor wedi methu ystyried cynnal asesiad o anghenion addysgol ei phlentyn, B, am flwyddyn gyfan, ac o fewn yr amserlen berthnasol, yn dilyn ildio ei hapêl i'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig. Cwynodd Mrs X hefyd fod y Cyngor wedi gwahaniaethu yn erbyn B, a oedd yn dioddef salwch meddwl hysbys, gyda'r sylwadau a wnaeth yn ystod y broses asesu. Canfu'r Ombwdsmon fethiannau yn yr achos a chadarnhaodd y rhan fwyaf o'r gŵyn. Wrth wneud hynny nododd fod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn berthnasol yn yr achos hwn (Erthyglau 12 a 13 – rhyddid mynegiant a meddwl a chred). Roedd gan B hawl i fynegi barn a chyfrannu at yr asesiad o anghenion.

Cydnabu'r Ombwdsmon bod y Cyngor wedi gwneud addasiad rhesymol (fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) wrth ymweld â B yn y cartref i gynnal yr asesiad (nid ei arfer arferol) ac wedi ceisio casglu barn B. Er nad oedd yn fater iddo wneud canfyddiadau o wahaniaethu, er hynny roedd yr Ombwdsmon o'r farn nad oedd sylwadau'r Cyngor ar y mater wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i salwch meddwl hysbys B ac y bu diffyg tystiolaeth i awgrymu mai dewis B oedd peidio ag ymgysylltu yn y broses asesu. Dyna pam yr oedd Mrs X o'r farn bod y Cyngor wedi gwahaniaethu yn erbyn B. Gofynnwyd i'r Cyngor adlewyrchu ar ganfyddiadau a sylwadau'r Ombwdsmon.

**Sylwadau cloi**

Hyderaf y bydd fy sylwadau yn ddefnyddiol i chi. Os dymunwch drafod unrhyw un o'r pwyntiau a wnaed gennym, mae croeso i chi gysylltu â Tanya Nash, fy Mhennaeth Polisi (tanya.nash@ombudsman.wales).



**Nick Bennett**

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**Ionawr 2021**